

Dyma'r pennawd a dynnodd fy sylw yn y *C&D Herald*, 3 Mehefin, 1904. Adrodd oedd y gohebydd am farwolaeth Edward Hughes yn 109 oed, ynghyd â phwt digon byr o'i hanes.

Doedd gen i'r un syniad pwy oedd Edward Hughes - dim ond mai yn Abersoch y treuliodd y rhan helaethaf o'i fywyd, a'i fod wedi cael y profiad prin o flasu bywyd mewn tair canrif wahanol, a oedd ynddo'i hun yn ei wneud yn gymeriad unigryw, heb sôn am ei aml ddoniau.

Yn ôl yr adroddiad, roedd yr hen ŵr yn arbenigwr mewn llawer maes a hefyd yn grefftwr medrus. Fe'i ganwyd yn Sir Feirionnydd yn y flwyddyn 1795, ond ymhle yno yn hollol does neb a ŵyr. Gwehydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, cyn troi at y byd amaeth ar ei ddyfodiad i'r Aber.

Ar ôl ymholi, cefais wybod bod Mr. Norman Hughes, Abersoch yn or-ŵyr iddo a chefais sgwrs hynod o ddfyfr gyda Norman pan ymwelais ag ef. Yn anffodus ychydig a wyddai o hanes ei hen daid ar wahân i'r hyn a glywodd gan ei rieni, a charwn innau ddiolch iddo am rannu o'r wybodaeth honno.

Ymddengys mai i Nant y Big y daeth Edward i gychwyn, a'r tebygrwydd yw mai merch y fan honno oedd ei briod. Cynnod byr fu i'r briodas gan i'r wraig golli'r dydd yn saith ar hugain oed ar enedigaeth plentyn. Yn fuan wedyn symudodd Edward Hughes i Bryn Gwynt, tyddyn bychan uwchben Porth Neigwl.

Mae lle i greu bod i'r amaethwr gweddwr gefndir morwrol, o ystyried ei fedrusrwydd mewn adeiladu a thrin cychod, a threuliai lawer o'i amser yn pysgota. Roedd ei wybodaeth o'r môr a'i elfennau ar bennau ei fysedd. Gwyddai hefyd am y peryglon a hyn a'i cymbhellodd i godi adeilad bychan o gerrig ar un o ynysoedd St Tudwal, noddfa i ddianc iddo pe bydda i Dafydd Jôs godi ei wrychyn. Mae'r hen adeilad yn bodoli hyd heddiw er ei fod wedi'i ehangu gryn dipyn, a chwt Edward Hughes y'i gelwir ef o hyd. Pan fyddai'r tymor pysgota'n dirwyn i ben ar draethau Llŷn, teithiai i Borthmadog gyda'i



geffyl a'i drol i brynu pysgod gan alw yn Mhwllheli ar ei daith ar gyfer eu halltu. Lluniair casgenni ar gyfer cludo'r pysgod ei hunan, ac ef a wnâi'r cylchoedd haearn a amgylchynai'r coed drwy ddefnyddio tân yr aelwyd fel pentan gof. Cymerai y daith i Borthmadog ddau ddiwrnod i'w chwblhau gan y byddai yn galw o ddrws i ddrws ar ei ffordd yn ôl i werthu. Byddai yng nghyffiniau Afon Wen erbyn nosi, a threuliai'r nos mewn stabal ar ochor y ffordd cyn ailgychwyn i gyfeiriad ei gartref ar doriad gwawr. Meddai Edward ar ddau geffyl: un trwm ar gyfer tynnu car llusg, a ddefnyddiai i gario gwymon yn wrtaith i'r tir, a'r llall yn geffyl llawer ysgafnach at y pwrpas o dynnu'r drol. Er bod ganddo ddau geffyl, byddai yn amal yn trin y tir gyda dau ych.

Yn ogystal â'i sgiliau fel gof, saer coed a chychiwr, byddai hefyd yn mynd o amgylch y wlad i doi tai to gwellt, ac yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthyf gan Norman, ei daid, sef mab Edward Hughes, oedd yr olaf i ymgymryd â'r gwaith yn yr ardal. Roedd ganddo gof plentyn o'i daid gyda bwndel o wellt o dan ei gesail yn adnewyddu to bwthyn yng nghyffiniau Abersoch.

I drigolion Cilan a'r cylch Edward Hughes oedd y dyn hysbys, ac ato ef yr elai llawer am gyngor meddygol. Roedd ei allu fel meddyg a meddyg esgryn yn ddiglyffelyb, ynghyd â'r awgrymiadau a roddai ar sut i gadw'n iach. Un arall o ddoniau Edward

oedd ei allu i dynnu dannedd a mynych y gwelid ef ar bererindod ddeintyddol yn ymweld â rhyw ddiodeffwr o'r ddannoedd. Cariai yr efail yn ei boced bob amser, cymaint oedd y galw am ei wasanaeth, ac mae Norman yn cofio gweld y teclyn.

'Ond ble mae o heddiw, does gen i ddim syniad! meddai. 'Ond dywedwyd wrthyf gan wraig oedranus unwaith fel y bu i'm hen daid dynnu ei dannedd pan oedd hi ond yn chwech oed. Beth bynnag am ei fedrusrwydd fel deintydd, mae'n eithaf siŵr bod y boen yn arteithiol heb gyffur i rewi'r dant!'

Nid oes sôn am yr arbenigwr yn gwneud dannedd gosod er ei bod yn eithaf posibl ei fod wedi rhoi cynnig arni gan ei fod wedi arfer rhoi amal i ddant mewn olwyn gocos cloc. Roedd yn hyddysg yn y grefft o drwsio clociau a wastys hefyd. At hyn i gyd, bu'n dilyn ei grefft fel gwehydd drwy gydol ei oes, a buasai'n ddiddorol cael gwybod a oes unrhyw gwrlid neu gyffelyb o'i wneuthuriad yn dal ar gael yn Llŷn heddiw.

Pan ddaeth yr alwad i'r henwr ymuno â'r dorf nefolaidd, gadawodd mewn llawn iechyd - ac yn wahanol i amryw o'i gwsmeriaid, roedd ei ddannedd bron yn gyflawn!

Pe byddai carreg i nodi'r fan y gorwedd ym mynwent Llanengan, hawdd fuasai dychmygu'r geiriau canlynol arni:

Yr Hyn a Allodd Hwn,  
Efe a'i Gwnaeth.

Yn y pum degau yr oedd bywyd yn arafach ac yr oedd gan yr heddwas lleol amser i gyfarwyddo â'r bobl y gweithiai yn eu mysg. Gwyddai eu cryfder ac adnabyddai eu gwendidau.

Oedd, yr oedd yn gyfnod difyr. Os gofynnech i mi beth sydd o'i le heddiw, credaf ein bod ar ormod o frys yn gwneud popeth. Gwibiwn o un peth i'r llall heb wneud amser i werthfawrogi'r pethau gogoneddus sydd o'n cwmpas. Alla i ddim ond ategu geiriau y bardd gardotyn, William Henry Davies.

*What is this life, if full of care,  
We have no time to stand and stare.*

## Atgofion hen heddwas

(Parhad o dudalen 3)

i'r gyrrwr, 'Picia â fi adre, wnei di?' 'Fiw i mi,' meddai'r gyrrwr 'ond ga'i ddod acw i'ch nôl chi.'

Cymeriad arall oedd perchennog y Builders Merchant yn y dre. Un diwrnod daeth saer maen ato i ofyn am gant ac ugain o frics. Gwyddai'r masnachwr mai i baratoi bedd y bwriadwyd defnyddio'r brics. Gofynnodd i'r saer maen, 'Pwy sydd wedi marw, felly?' 'Hwn a hwn sy'n flaenor gyda'r Methodistiaid,' meddai'r saer maen. 'Firebrics sy'gen ti eisio felly yntê,' meddai'r masnachwr.

Soniais eisoes pa mor bwysig oedd y ffair fisol i'r ffermwyr. Byddwn yn edrych ymlaen am sgwrs gyda hwn a'r llall Y math o beth a glywech ganddynt fyddai, 'Wyddost ti be? Roedd yna ryw hen foi digon rhyfedd yn pasio acw wythnos yn ôl. Rown i'n amheus ohono.' Wn i ddim beth oedd o'n disgwyl i mi ei wneud yn ei gylch, rhywbeth oedd dros wythnos oed, ond dyna fo. Mae'n debyg fod y ffarmwr yn teimlo'n well o rannu ei amheuaeth.

Dro arall dywedodd un ffermwr wrthaf fi,

'Faswn i byth yn dod ar gyfyl y dre yma ond fod gen i anifeiliaid i'w gwerthu.' Rhyw bythefnos wedyn cauwyd y farchnad am fod Clwy'r Traed a'r Genau wedi torri allan. Pwy welais ar sgwâr y dre, yn pwyso ar ei ffon, ond yr un ffermwr. Gofynnais iddo 'Pam ydych yn y dre heddiw? Does dim marchnad ar gael.'

'Arferiad, fachgen, arferiad,' meddai. Chwarae teg iddo. Colli'r cwmni, mae'n debyg.

Un stori arall ynglŷn â'r ffair. Lladratwyd car un ffermwr tra'r oedd yn y ffair. Roedd wedi gwylltio'n gaclwm. Dyn bychan, eiddil o gorff oedd o, a phrin bum froedfedd a hanner o daldra. Meddai, 'Os cewch afael ar y cythraul gadewch i mi gael pum munud hefo fo yn ei gell. Mi ro'i ddwyn ceir iddo fo.' Cawsom hyd i'r car a'r lleidr, y bore wedyn. Dyn digartref yn byw mewn pabell tua deg milltir o'r dre, wedi cymryd y car i gyrraedd yn ôl i'w babell. Nid oedd yn ddihiryn yn ôl gwir ystyr y gair, ond roedd o'n anferth o ddyd, ymhell tros ei chwe troedfedd, a dwylo ganddo fel bwcedi Jac Codi Baw. Wrth dorri'r newydd da i'r perchennog bu bron i mi roi'r cyfle iddo gyfarfod â'r lleidr yn ei gell. Ond gwell oedd peidio. Buasai wedi lladd yr hen ffermwr ag un trawiad.

## Ar Werth

*A Topographical Dictionary of Wales*, Samuel Lewis, 1833, Cyf I a II

*Cylchgronau Llyfrgell Genedlathol Cymru*, set gyflawn rhwng 1939 a 1980 a rhai eraill (84 rhifyn i gyd)

*The Tribal System in Wales*, F. Seebohm, 1904.

*The Cambrian Journal*, Cyf I, 1854.

Cysyllter ar (01822) 834666

neu tîrbach@clara.co.uk